# Manifesto Iechyd yr Amgylchedd 2024

Chartered Institute of Environmental Health
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd



*Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH) yw'r llais proffesiynol dros iechyd yr amgylchedd, yn cynrychioli dros 7,500 o aelodau ledled Prydain sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Rydym yn galw ar bleidiau gwleidyddol, gweinyddiaethau datganoledig, a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gydnabod y rôl hanfodol y mae iechyd yr amgylchedd yn ei chwarae yn ein bywydau ni i gyd.*

# Yr Achos dros Iechyd yr Amgylchedd

Mae gan iechyd yr amgylchedd rôl unigryw ac allweddol o ran gwella iechyd y cyhoedd, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a gwarchod ein hamgylchedd. Mae gweithwyr iechyd yr amgylchedd yn arbenigwyr â chymwysterau proffesiynol sy'n cael hyfforddiant trylwyr a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae ganddynt ddealltwriaeth ddofn o egwyddorion gwyddonol, fframweithiau rheoleiddio ac ymyriadau ymarferol i ddelio â materion allweddol fel ansawdd aer, cyflwr tai, diogelwch yn y gweithle a diogelwch bwyd.

Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn gweithio o fewn gwasanaethau rheoleiddio, sefydliadau, y fyddin, a'r byd academaidd, pob un yn cyfrannu at ein nod o sicrhau amgylchedd mwy diogel, glanach ac iachach i bawb. Trwy eu harbenigedd sicrhânt y gweithredir polisïau ac arferion effeithiol sy'n diogelu iechyd y cyhoedd ac yn gwella ansawdd yr amgylchedd. Er enghraifft, mae eu gwaith ym maes rheoli ansawdd aer yn helpu i leihau llygredd, wrth arolygu sefydliadau bwyd maen nhw'n sicrhau diogelwch bwyd, ac wrth orfodi safonau tai maent yn gwella amodau byw.

Gan adeiladu ar ein treftadaeth gyfoethog, mae CIEH yn ymgyrchu i sicrhau bod polisi'r llywodraeth yn ateb anghenion cymunedau a busnesau wrth wella a chynnal safonau amgylcheddol ac iechyd cyhoeddus. Mae ein hanes wedi'i wreiddio yn oes Fictoria pan aeth diwygwyr iechyd cyhoeddus ati i geisio dileu tlodi ac afiechyd yn y trefi a'r dinasoedd, gan osod y sylfaen ar gyfer arferion cynhwysfawr heddiw ym maes iechyd yr amgylchedd.

Mae'r Maniffesto Iechyd yr Amgylchedd hwn yn cadarnhau mentrau polisi hanfodol ar draws meysydd tai, diogelwch bwyd, gwarchod yr amgylchedd, iechyd a diogelwch yn y gweithle, ac iechyd cyhoeddus. Anogwn bleidiau ac ymgeiswyr gwleidyddol i ymrwymo i gefnogi iechyd yr amgylchedd a gwaith anhepgor ein gweithwyr proffesiynol ymroddedig.

Nid ymarferwyr yn unig yw gweithwyr iechyd yr amgylchedd, maent hefyd yn arweinwyr meddyliol ac arloeswyr yn eu maes. Mae eu cymwysterau'n aml yn cynnwys graddau mewn iechyd amgylcheddol, tystysgrifau ac aelodaeth mewn cyrff proffesiynol fel CIEH, gan adlewyrchu eu hymrwymiad i ragoriaeth ac ymarfer moesegol. Trwy integreiddio gwyddoniaeth, polisi ac ymarfer, maen nhw'n ymdrin mewn modd holistig â heriau iechyd cyhoeddus, gan sicrhau bod unrhyw ddatrysiadau yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

Wrth i ni wynebu materion iechyd ac amgylcheddol cymhleth, daw rôl gweithwyr iechyd yr amgylchedd yn fwyfwy hanfodol. Mae eu harbenigedd mewn epidemioleg, tocsicoleg, asesu risg, a gwyddor amgylcheddol yn eu harfogi i fynd i'r afael â heriau cyfoes fel newid hinsawdd, ymddangosiad clefydau heintus, a chyfiawnder amgylcheddol. Mae'n hanfodol cefnogi a chydnabod y gweithwyr proffesiynol hyn er mwyn iechyd a lles y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## Y Gweithlu

**Mae CIEH yn galw ar y Llywodraeth i flaenoriaethu iechyd y cyhoedd drwy ariannu timau Iechyd Amgylcheddol awdurdodau lleol yn ddigonol, gan glustnodi digon o gyllid ar gyfer prentisiaid a hyfforddeion Iechyd yr Amgylchedd.**

Mae Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd (Ymarferwyr IA) yn rhan o'r gweithlu iechyd cyhoeddus craidd – gan chwarae rôl unigryw, sy'n aml yn un gudd, ym maes gwarchod iechyd y cyhoedd drwy ddulliau ataliol.

Wedi bod ar reng flaen y frwydr yn erbyn pandemig byd-eang, gan ddangos eu sgiliau gwarchod iechyd y cyhoedd, mae Ymarferwyr IA yn weithwyr craidd a ninnau'n mynd drwy adeg o newid parhaus na welwyd ei fath o'r blaen. Nawr, gyda chostau byw ar gynnydd ac anghydraddoldeb yn tyfu, rhaid i'r llywodraeth ganolog fuddsoddi i gadw'r Ymarferwyr presennol o fewn timau Iechyd Amgylchedd lleol, ond hefyd i recriwtio a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o Ymarferwyr gan sicrhau amgylcheddau mwy diogel, glanach ac iachach i bawb.

Dangosodd ymchwil diweddar a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol fod cynghorau lleol yn dibynnu fwyfwy ar staff asiantaeth tra bod gweithwyr contract parhaol yn gadael am swyddi eraill sy'n talu'n well. Amcangyfrifwyd bod £20.7 miliwn wedi'i wario ar staff asiantaethau iechyd amgylcheddol ym mlwyddyn ariannol 2022/23[1], ac mae'r defnydd cynyddol o staff asiantaeth i lenwi bylchau yn y gweithlu parhaol nid yn unig yn anghynaladwy yn ariannol ond mae'n ddatrysiad llai effeithiol o ran darparu gwasanaethau statudol lleol.

Datgelodd arolwg CIEH yn 2021 o'r gweithlu yn Lloegr[2] hefyd fod 56% o awdurdodau lleol wedi nodi bod swyddi gwag yn eu timau Iechyd yr Amgylchedd na chafodd eu llenwi am 6 mis neu fwy. Y prif resymau dros y swyddi gwag oedd nad oedd digon o Ymarferwyr IA cwbl gymwys a phrofiadol ar gael.

Er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd yn iawn, lleddfu'r pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a lleihau colled cynhyrchiant i'r economi, mae'n hollbwysig buddsoddi'n barhaus yn ein gweithlu iechyd amgylcheddol.

## Integreiddio Iechyd yr Amgylchedd yn well o fewn y gweithlu Iechyd Cyhoeddus

Mae iechyd yr amgylchedd yn sicrhau'r gwerth ariannol a chymdeithasol cryf sy'n hanfodol i ffyniant economaidd ac iechyd Prydain. Wrth ysgafnhau'r pwysau ar y GIG drwy orfodi safonau iechyd amgylcheddol uchel, yn ogystal â lleihau'r dyddiau gwaith a gollir oherwydd salwch y gellid ei osgoi, mae ein haelodau yn sicrhau'r safonau iechyd diogel a dibynadwy sy'n sylfaen i economi ffyniannus.

**Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gynyddu cyllid i gefnogi swyddogaethau rheoleiddio ac Iechyd yr Amgylchedd mewn awdurdodau lleol.**

Roedd gweithwyr iechyd yr amgylchedd yn hanfodol wrth ddarparu cymorth ac arweiniad i'r cyhoedd, i Gyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus ac i'r Llywodraeth, yn ogystal â bod yn gyfrifol am orfodi ymateb y Deyrnas Unedig i COVID-19. Roedd aelodau CIEH yn ganolog wrth gyfrannu adnoddau a safbwyntiau unigryw ar

1 Cymdeithas Llywodraeth Leol, Local Government Capacity Survey – Environmental Health Research Report, 2023

2 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, *Environmental health workforce survey report: local authorities in England,* 2021

gyfer delio â'r pandemig a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Ymhlith eu cyfraniadau roedd olrhain cysylltiadau, sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau iechyd megis cadw pellter cymdeithasol mewn busnesau a mannau cyhoeddus, a chyfleu gwybodaeth cwarantîn i'r cyhoedd, gan ddangos eu hyblygrwydd a'u rôl hanfodol mewn argyfyngau iechyd cyhoeddus. Roedd yr ymdrechion hyn yn hanfodol i reoli lledaeniad COVID-19 ac yn dangos rôl anhepgor gweithwyr iechyd yr amgylchedd yn gwarchod iechyd y cyhoedd.

**Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gynnwys gweithwyr iechyd yr amgylchedd ym mhob cynllun datblygu iechyd cyhoeddus ac wrth ymgynghori ar fframweithiau polisi iechyd ar bob lefel o lywodraeth.**

Heddiw, mae anghydraddoldebau iechyd yn codi ac mae lefelau tlodi ar gynnydd yn sgil yr argyfwng costau byw[3]. Gyda dros saith miliwn o bobl ar restri aros y Gwasanaeth Iechyd Gwladol[4], does dim syndod mai iechyd y genedl yw un o bryderon mwyaf y cyhoedd wrth nesáu at yr etholiad nesaf[5]. Yn wyneb yr heriau hyn, mae'n bwysicach nag erioed bod y Llywodraeth yn cydnabod, yn cefnogi ac yn cynyddu'r rôl unigryw, a chudd yn aml, y mae gweithwyr iechyd yr amgylchedd yn ei chwarae mewn gwaith ataliol i warchod iechyd y cyhoedd.

Ar hyn o bryd, does neb wedi'i enwi'n bennaeth ar y proffesiwn iechyd amgylcheddol o fewn Llywodraeth Prydain. Mae'r bwlch hwn yn golygu bod goruchwyliaeth strategol dros iechyd yr amgylchedd a chamau i'w gynnwys mewn mentrau iechyd cyhoeddus ehangach yn aml yn dameidiog ac anghyson. Mae gweithwyr iechyd amgylcheddol yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu iechyd y cyhoedd, ond gellir anwybyddu eu cyfraniadau heb swydd arweinyddiaeth benodol.

**Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sefydlu rôl newydd Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn Lloegr, i eistedd ochr yn ochr â'r Prif Swyddog Meddygol, a gweithio gydag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig i atal achosion o bandemig yn y dyfodol.**

## Cyflwr tai gwael

Testun pryder mawr oedd marwolaeth Awaab Ishak oherwydd cyflwr anadlol a achoswyd am iddo fyw am gyfnod hir gyda'r llwydni ar y waliau yn fflat y gymdeithas dai lle roedd yn byw gyda'i deulu.  Mae'r achos trasig hwn yn dangos yr angen am fwy o ymwybyddiaeth ac adnoddau gwell i'r rôl hanfodol a chwaraeir gan weithwyr iechyd yr amgylchedd wrth ddelio â chyflwr gwael tai ym mhob math o ddeiliadaeth er mwyn lleihau salwch ac achub bywydau.

Mae gwaith awdurdodau lleol wrth fynd i'r afael â chyflwr gwael tai yn atal marwolaethau bob dydd. Mae hefyd yn gwneud llawer iawn i leihau'r amser y mae pobl yn byw gydag anableddau ac afiechyd sydd wedi'u hachosi yn y bôn gan dai annigonol.

Rydym wedi croesawu, mewn egwyddor, ymrwymiad Llywodraeth Prydain i wneud i gartrefi rhent preifat fodloni Safon Cartrefi Gweddus ac i haneru nifer y cartrefi sydd heb fod o safon weddus ar draws pob deiliadaeth erbyn 2030. Rydym yn pryderu, serch hynny, y byddai'r Safon Cartrefi Gweddus a bennwyd mewn ymgynghoriad yn ychwanegu haen arall o gymhlethdod i'r system reoleiddio, yn enwedig gan ei bod yn gorgyffwrdd â'r safonau presennol. Hoffem weld y gwahanol safonau'n cael eu cydgrynhoi i roi eglurder i landlordiaid, tenantiaid ac awdurdodau lleol.

[3] The Royal Society of Public Health, *Unusual Suspects*, 2024

[4] British Medical Association, *NHS backlog data analysis*, 2024

[5] The King's Fund, *Public Satisfaction with the NHS and Social Care in 2022*, 2023

Rydym yn pryderu hefyd fod y Llywodraeth yn creu haen ychwanegol o ddyletswyddau gorfodi i awdurdodau lleol sydd heb ddigon o adnoddau cyffredinol na digon o weithwyr iechyd amgylcheddol proffesiynol.

**Ynghyd â galw am gyllid priodol i awdurdodau lleol a thimau iechyd yr amgylchedd, mae CIEH yn galw am symleiddio'r system reoleiddio gyfan fel bod tenantiaid yn ymwybodol o'u hawliau o dan y system o ddeddfau sydd wedi'u cynllunio i'w diogelu.**

## Cynllun cofrestru cenedlaethol ar gyfer y sector rhentu preifat

Yn 2022 roedd 21% o gartrefi rhent preifat yn Lloegr heb fod o safon weddus - y gyfran uchaf o bob deiliadaeth[6] - ac eto prin yw'r wybodaeth sydd gan awdurdodau lleol am landlordiaid a'u heiddo yn eu hardaloedd lleol. Does dim gofyniad statudol ar landlordiaid i ddatgan eu buddiannau ac mae landlordiaid gwael yn manteisio ar hyn er anfantais i'w tenantiaid. Mae cynlluniau cofrestru eisoes yn weithredol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cynigiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddiwygiadau yn y sector rhentu preifat yn Lloegr yn ei Bil Rhentwyr (Diwygio), a chyflwynodd CIEH dystiolaeth ysgrifenedig ar hyn i bwyllgor seneddol[7]. Un o'r cynigion oedd cyflwyno Porth Eiddo newydd. Roedd hyn, ynghyd ag Ombwdsmon Cenedlaethol y gallai tenantiaid fynd ato i geisio iawn am unrhyw broblem, yn gam i'r cyfeiriad cywir. Ond roeddem yn awyddus i gael eglurder ynghylch sut y byddai'n cael ei roi ar waith yn ymarferol.

Anghytunwn yn gryf ag awgrymiadau y byddai cofrestr landlordiaid genedlaethol yn dileu'r angen am gynlluniau trwyddedu dethol (sy'n pennu ardaloedd lle mae'n rhaid cofrestru eiddo rhent preifat gyda'r awdurdod lleol). Mae trwyddedu yn fodd i awdurdodau lleol archwilio tai rhent preifat gan osod amodau gorfodadwy, ac i nodi a datrys problemau heb fod angen i denantiaid gwyno. Ni fyddai cofrestr landlordiaid genedlaethol yn disodli'r gwasanaeth hwn. Dylid ei ddefnyddio fel arf i gefnogi'r defnydd o gynlluniau trwyddedu gan awdurdodau lleol.

**Mae CIEH yn dymuno gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyflwyno cofrestr landlordiaid genedlaethol. Dylai'r Llywodraeth sicrhau y defnyddir cofrestr landlordiaid genedlaethol fel arf i gefnogi'r defnydd o gynlluniau trwyddedu gan awdurdodau lleol.**

## Dileu rhwystrau diangen i ddefnyddio cynlluniau trwyddedu

Credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddileu rhwystrau diangen sy'n atal awdurdodau lleol rhag defnyddio cynlluniau trwyddedu i wella safonau tai.

Ar hyn o bryd mae datgysylltiad rhyfedd yn neddfwriaeth drwyddedu Deddf Tai 2004 lle gall awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau trwyddedu dethol i fynd i'r afael ag eiddo sydd mewn cyflwr gwael, ond na allant gynnwys gofyniad y gellir ei orfodi'n uniongyrchol ynglŷn â chyflwr eiddo fel amod o'r drwydded ei hun. Argymhellwn felly y dylid diwygio adran 90 o Ddeddf Tai 2004 i alluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio amodau trwydded i wella cyflwr eiddo[8].

6 Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, *English housing survey 2022-23: headline report* Rhagfyr 2023.

7 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, *Written evidence submitted to the Renters (Reform) Public Bill Committee*, Tachwedd 2023.

8 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, *Written evidence submitted to the Renters (Reform) Public Bill Committee*, Tachwedd 2023, t. 9.

Argymhellwn hefyd y dylid diwygio adrannau 60 ac 84 Deddf Tai 2004 i gynyddu'r cyfnod mwyaf a ganiateir ar gyfer cynlluniau trwyddedu yn ôl disgresiwn, sy'n cynnwys cynlluniau trwyddedu dethol a chynlluniau trwyddedu ychwanegol ar gyfer tai amlfeddiannaeth gyda llai na phump o feddianwyr, o bump i ddeng mlynedd[9]. Byddai hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol hysbysebu swyddi fyddai'n para'n hirach ac yn caniatáu iddynt hyfforddi staff newydd mewn cynlluniau trwyddedu disgresiwn. Byddai'n rhoi mwy o amser hefyd i bartneriaethau lleol a ffurfir trwy gynlluniau o'r fath sefydlu eu hunain a chael effaith ac i'r cynlluniau gyflawni gwelliannau parhaus i gyflwr a rheolaeth eiddo.

**Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddileu rhwystrau diangen sy'n atal awdurdodau lleol rhag defnyddio cynlluniau trwyddedu i wella safonau tai. Yn benodol, dylai alluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio amodau trwydded i wella cyflwr eiddo a dylai gynyddu'r cyfnod mwyaf a ganiateir ar gyfer cynlluniau trwyddedu yn ôl disgresiwn o bump i ddeng mlynedd.**

## Sicrhau diogelwch cyflenwad bwyd y Deyrnas Unedig

Pan oedd y Deyrnas Unedig yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, gweithiai o dan sawl mesur i amddiffyn iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, gyda dros 50 o wahanol Gyfarwyddebau a Rheoliadau Ewropeaidd yn rheoli safonau bwyd yn y wlad hon. Gan nad yw'r wlad yn aelod o'r Undeb mwyach, nid yw'n gaeth mwyach i'r rheoliadau hyn ynglŷn â safonau bwyd. Ond er hyn, mae'n dal yn hanfodol ein bod yn sicrhau'r safonau bwyd uchaf posibl. Croesawn y ffaith fod y Ddeddf Amaeth yn cynnwys gofyniad i gyflwyno adroddiad i'r Senedd sy'n canolbwyntio ar y ffyrdd y gallai cytundebau masnach yn y dyfodol effeithio ar y sector bwyd a ffermio. Serch hynny, nid yw'n rhoi'r sicrwydd y caiff y safonau bwyd presennol eu cynnal mewn unrhyw gytundebau masnach rydd yn y dyfodol. Gallai cytundebau masnach rydd gyda gwledydd y tu allan i'r UE beri sawl risg bosibl i ddiogelwch a safonau bwyd y Deyrnas Unedig, gan gynnwys hormonau eidion, somatotropin buchol a ddefnyddir wrth gynhyrchu llaeth, addasu genetig ar gnydau, defnyddio diheintyddion clorinedig i leihau halogiad bacteriol carcasau dofednod, yn ogystal â bwyd sy'n cynnwys ystod a lefelau ehangach o ychwanegion bwyd[10].

**Mae CIEH yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ymrwymo i gynnal a gwella ein safonau bwyd uchel mewn unrhyw gytundebau masnach yn y dyfodol.**

## Cydnabyddiaeth lawn o rôl Iechyd yr Amgylchedd ar ein ffiniau

Mae gweithwyr iechyd yr amgylchedd wedi'u hyfforddi'n drylwyr i orfodi cyfreithiau diogelwch bwyd, ac eto ni chânt eu cydnabod yn ffurfiol fel eu cydweithwyr milfeddygol o dan y fframweithiau rheoleiddio cyfredol. Mae'r anghysondeb hwn yn tanseilio effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein mesurau diogelwch bwyd, yn enwedig ar bwyntiau critigol fel archwiliadau post-mortem.

Rydym yn argymell diwygiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol nad yw'n cydnabod y cydraddoldeb proffesiynol rhwng Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd a milfeddygon ar hyn o bryd. Mae'r gwelliant hwn yn hanfodol i wella gallu'r Deyrnas Unedig i reoli diogelwch bwyd a glynu at yr arferion gorau ar ôl Brexit.

9 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, *Written evidence submitted to the Renters (Reform) Public Bill Committee,* Tachwedd 2023, tt. 8-9.

10 Food Research Collaboration, *Feeding Britain: Food Security after Brexit - Food Research Collaboration,* 2018

Mae gan weithwyr iechyd yr amgylchedd y cymwysterau, y cymhwysedd proffesiynol yn ogystal â'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n hanfodol ar gyfer gorfodi cyfreithiau bwyd yn drylwyr. Mae'n hanfodol bod eu rôl yn cael ei chydnabod yn ffurfiol o fewn y fframwaith rheoleiddio i sicrhau bod gorfodi diogelwch bwyd nid yn unig yn cael ei gynnal ond yn cael ei gryfhau.

Felly, argymhellwn fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i gynnwys gweithwyr iechyd yr amgylchedd yn benodol fel swyddi cydnabyddedig cyfwerth â milfeddygon wrth ddarparu mesurau rheoli swyddogol ar gynnyrch sy'n dod o anifeiliaid (POAO). Bydd cydnabyddiaeth o'r fath yn symleiddio prosesau diogelwch bwyd, yn ategu'r gweithlu milfeddygol ar ein ffiniau[11], ac yn gwella gallu'r genedl i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Yn ogystal, rydym yn annog y Llywodraeth i ystyried manteision hirdymor cysoni rheoleiddiol o'r fath. Trwy ffurfioli cydraddoldeb gweithwyr iechyd yr amgylchedd a milfeddygon swyddogol, gall y Deyrnas Unedig sicrhau system ddiogelwch bwyd fwy cadarn, effeithlon ac ymatebol.

**Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddileu rhwystrau diangen sy'n atal defnyddio arbenigedd iechyd yr amgylchedd yn llawn wrth ddarparu mesurau rheoli swyddogol ar gynnyrch sy'n dod o anifeiliaid. Yn benodol, dylai ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i adlewyrchu'r rôl hanfodol y mae gweithwyr iechyd yr amgylchedd yn ei chwarae wrth gynnal safonau diogelwch bwyd ac iechyd y cyhoedd. Byddai gwelliannau o'r fath yn darparu'r gefnogaeth gyfreithiol sy'n angenrheidiol i weithwyr iechyd yr amgylchedd weithredu ar sail gyfartal â milfeddygon wrth wirio cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid, gan wella effeithiolrwydd cyffredinol system ddiogelwch bwyd y Deyrnas Unedig.**

## Gwella safonau a diogelwch bwyd

Mae 2.4 miliwn o bobl yn dioddef o salwch a gawsant drwy fwyd ym Mhrydain bob blwyddyn[12], ar gost o ryw £9bn y flwyddyn i economi'r Deyrnas Unedig[13]. Ar draws y diwydiant bwyd, mae gweithwyr iechyd yr amgylchedd yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod pob bwyd sy'n cael ei gynhyrchu, ei gludo, ei storio, ei baratoi a'i werthu yn ddiogel a'i fod yr hyn y mae'n ei honni. Mae rheoleiddio effeithiol ac annibynnol yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod busnesau'n bodloni'r safonau gofynnol. Er bod y rhan fwyaf o fusnesau bwyd yn gweithredu o fewn y gyfraith, mae yna nifer sylweddol bob blwyddyn sydd angen gwella. O'r sefydliadau bwyd oedd wedi'u cofrestru gan awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2019/20, rhoddwyd rhybuddion ysgrifenedig i 27% ac roedd 4,784 yn destun camau gorfodi ffurfiol am droseddau hylendid bwyd[14]. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae cynlluniau Sgorio Hylendid Bwyd gorfodol yn sicrhau y gall defnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus ynghylch ble maen nhw'n bwyta ac yn prynu bwyd.

**Er mwyn galluogi defnyddwyr yn Lloegr i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch ble maen nhw'n bwyta ac yn prynu bwyd, rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus a'i gwneud yn orfodol i fusnesau bwyd arddangos Sgoriau Hylendid Bwyd. Dylid cymryd camau hefyd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn dyrannu digon o adnoddau i reoleiddio bwyd.**

---

11 Asiantaeth Safonau Bwyd, Asiantaeth Safonau Bwyd yr Alban, *FSA and FSS call for immediate action to address vet workforce challenges,* 2023

12 Asiantaeth Safonau Bwyd, *Foodborne Disease Estimates for the United Kingdom in 2018*, 2020

13 Asiantaeth Safonau Bwyd, *Foodborne Disease in the UK 2018*, 2020

14 Asiantaeth Safonau Bwyd, *Annual report on local authority food law enforcement for England, Wales and Northern Ireland 1 April 2019 to 31 March 2020*, 2020

## Trawsnewid system amaethyddol a bwyd y Deyrnas Unedig

Mae cysylltiad rhwng diogelwch bwyd, safonau bwyd a chynaliadwyedd. Mae amaethyddiaeth yn cyfrannu at 12% o allyriadau nwyon tŷ gwydr y Deyrnas Unedig[15]. Ond byddai'r polisïau sydd wedi'u cadarnhau yn sicrhau dim ond 18% o'r gostyngiad sy'n angenrheidiol yn allyriadau'r sector[16]. Er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol a sicrhau bod Prydain yn parhau i allu cael bwyd o ffynonellau cynaliadwy, rhaid i ni drawsnewid ein system fwyd. Dylai strategaeth fwyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig[17], a ryddhawyd ym Mehefin 2022 gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, dderbyn yn llawn argymhellion y Strategaeth Fwyd Genedlaethol nad ydynt i'w gweld yn yr adolygiad, gan gynnwys ail-lunio treth halen a siwgr yn ogystal â'r angen i drawsnewid arferion bwyta'r genedl i fwyta llai o gig er mwyn gwarchod iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd[18].

Mae effeithiau Brexit, COVID-19, prinder llafur a'r rhyfel yn Wcráin i gyd wedi arwain at newidiadau sylweddol i system fwyd y Deyrnas Unedig[19], gan gynnwys mwy o geginau 'cludfwyd yn unig', sy'n pwysleisio'r angen i ddiogelu ein fframwaith diogelwch a chywirdeb bwyd yn y dyfodol, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gadarn ac yn addasadwy.

**Hoffai CIEH weld y Strategaeth Fwyd Genedlaethol yn cael ei chyflwyno'n strategol, gyda mandad i sicrhau bod pob polisi sy'n ymwneud â bwyd yn cyd-fynd ac yn darparu buddion iechyd ac amgylcheddol, ac yn enwedig eu bod yn delio â materion sy'n codi ym maes diogelwch bwyd.**

Dylid lleihau gwastraff diangen yn y systemau cynhyrchu a chyflenwi bwyd. Bob blwyddyn, rydym yn gwastraffu tua 6.4 miliwn tunnell o fwyd, 74% ohono'n fwyd a fwriadwyd ar gyfer pobl.[20] Caiff bwyd ei wastraffu ym mhob cam o'r gadwyn fwyd, sy'n effeithio'n andwyol ar yr economi a diogelwch bwyd. Mae Strategaeth Fwyd yr Adran wedi colli cyfle i ddilyn argymhelliad yr Adolygiad Annibynnol i ystyried ei gwneud hi'n orfodol i fusnesau o faint penodol lunio adroddiadau am wastraff bwyd.

**Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflawni ei hymrwymiad i haneru faint o fwyd a gollir ac a wastreffir erbyn 2030 yn unol â thargedau Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.**

15 Department for Energy Security and Net Zero, *2023 UK greenhouse gas emissions, provisional figures*, 2024
16 Green Alliance, *Net zero policy tracker: March 2024 update,* 2024
17 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Government food strategy*, 2022
18 The National Food Strategy, *The Plan*, 2021
19 Asiantaeth Safonau Bwyd, *Food System Strategic Assessment: Trends and issues impacted by UK economic condition*, 2023
20 WRAP, *Food Surplus and Waste in the UK Key Facts - updated November 2023*, 2023
*Nodyn i olygyddion: Ar draws pob sector yn y Deyrnas Unedig, cynhyrchir 10.7 miliwn tunnell o wastraff bwyd bob blwyddyn. Gyda'i gilydd, gan gynnwys pob dull gwaredu, fel compostio cartref a charthffosydd, rydym yn gwastraffu 6.4 miliwn tunnell. *

# Targedau cadarn ac uchelgeisiol ar gyfer ansawdd aer a sŵn

Mae ansawdd aer da yn ofyniad sylfaenol ac yn effeithio ar iechyd pobl. Yn ôl ffigyrau 2018, mae tua 4.5 miliwn o blant ym Mhrydain (un o bob tri) yn byw mewn tref neu ddinas sydd â lefelau anniogel o lygredd gronynnol[21]. Yn waeth fyth, canfuwyd yn ddiweddar fod pob ysgol newydd sy'n cael ei hadeiladu yn Lloegr yn torri o leiaf un o ganllawiau ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd[22]. Mae Deddf yr Amgylchedd wedi arwain at ymgorffori dau darged ansawdd aer newydd yn y Strategaeth Ansawdd Aer, i sicrhau crynodiad $PM_{2.5}$ uchaf o 10μg/m³ i'w gyrraedd ledled Lloegr erbyn 2040 a gostyngiad o 35% yn y boblogaeth yr effeithir arni erbyn 2040 (ar sail ffigyrau 2018). Nid yw'r targedau hyn yn cyrraedd safon canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd[23].

Mae llygredd sŵn yn parhau i fod yn faich sylweddol ar iechyd y cyhoedd a'r economi, a dim ond llygredd aer sy'n gosod baich mwy. Canfu ymchwiliad Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Arglwyddi fod 130,000 o flynyddoedd o fywyd iach wedi eu colli yn y Deyrnas Unedig oherwydd llygredd sŵn yn 2018, a bod 40% o'r boblogaeth yn parhau i ddioddef lefelau sŵn niweidiol gan lygredd traffig[24]. At hynny, amcangyfrifir bod colli cwsg yn sgil llygredd sŵn a golau yn costio £34 biliwn y flwyddyn i economi'r Deyrnas Unedig[25].

Er gwaethaf hyn, does dim digon o sylw wedi'i roi i lygredd sŵn, ac argymhellion yr ymchwiliad. Yn benodol, does dim polisïau gan y Deyrnas Unedig wedi ymateb i'r angen i sefydlu targedau llygredd sŵn penodol erbyn cylch pum mlynedd nesaf y Cynllun Gwella Amgylcheddol, i ffurfio Pwyllgor Sŵn Arbenigol ac i ddarparu adnoddau digonol i awdurdodau lleol reoleiddio llygredd sŵn.

**Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno targedau ansawdd aer uchelgeisiol ar fyrder drwy ymrwymo i leihau crynodiad $PM_{2.5}$ i 10μg/m³ erbyn 2030, a rhoi mwy o sylw i lygredd sŵn er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.**

Yn ôl tystiolaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig, llosgwyr coed domestig a thanau agored yw'r ffynhonnell fwyaf erbyn hyn o lygredd gronynnau bach i'r aer ym Mhrydain, gan gynhyrchu $PM_{2.5}$ mwy niweidiol na thraffig y ffyrdd[26]. Er gwaethaf gwelliannau yn eu dyluniad, mae ymchwil academaidd wedi canfod bod hyd yn oed cartrefi sydd â llosgwyr coed "eco" dair gwaith yn fwy llygredig na'r rhai hebddynt [27]. 8% o'r boblogaeth sy'n llosgi coed yn eu cartrefi ar hyn o bryd, ond mae data'r llywodraeth ei hun wedi awgrymu bod allyriadau $PM_{2.5}$ o wresogi domestig wedi cynyddu 125% mewn 10 mlynedd, sy'n awgrymu cynnydd sylweddol yn y defnydd o losgwyr coed domestig[28].

**Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig reoleiddio gwerthiant a defnydd llosgwyr tanwydd solet domestig mewn ardaloedd trefol lle mae dewisiadau amgen ar gyfer gwresogi ar y grid.**

Mae canllawiau Ansawdd Aer yn fater datganoledig, ond nid yw Senedd Cymru na Chynulliad Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno'u canllawiau Ansawdd Aer eu hunain eto.

21 Unicef, *The Toxic School Run: UK Children at Daily Risk from Air Pollution*, 2018
22 BMJ, *Investigating the air quality surrounding new schools in England: polluted playgrounds and school buildings are a source of avoidable harm,* 2024
23 Sefydliad Iechyd y Byd, *Global Air Quality Guidelines,* 2021
24 Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Arglwyddi, *Impact of noise and light pollution on human health*, 2024
25 Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Arglwyddi, *The Neglected Pollutants: The effects of artificial light and noise on human health*, 2023
26 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Emissions of air pollutants in the UK – Particulate matter (PM10 and PM2.5),* 2024
27 MDPI, *Indoor Air Pollution from Residential Stoves: Examining the Flooding of Particulate Matter into Homes during Real-World Use,* 2020
28 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Emissions of air pollutants in the UK, 2024*

**Rhaid i Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon gyflwyno targedau Ansawdd Aer a dylent hefyd anelu at leihau crynodiad $PM_{2.5}$ i 10µg/$m^3$ erbyn 2030, yn unol â Chanllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.**

Yn hollbwysig, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau ufudd-dod i dargedau ansawdd aer a gweithredu a monitro ymyriadau amrywiol. Ond fel y nododd CIEH mewn ymateb i ymgynghoriad Defra ym mis Ebrill 2023 ar eu Strategaeth Ansawdd Aer ddrafft, heb ddiweddaru'r canllawiau, adnoddau a deddfwriaeth, tameidiog a bratiog o hyd fydd ymdrechion yr awdurdodau lleol.

**Rhaid i unrhyw raddfa uchelgais cenedlaethol ynghylch ansawdd aer gael ei fodloni â fframwaith cyfannol o ran adnoddau i awdurdodau lleol.**

## Mesurau cyfannol, ledled Prydain, i leihau allyriadau

Mae lleihau allyriadau trafnidiaeth ffyrdd yn hanfodol er mwyn lleihau amlygiad pobl i lygredd aer. Traffig ar y ffyrdd yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros gyflwyno Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ledled y Deyrnas Unedig, o Ogledd Iwerddon i Lundain. Mae effeithiolrwydd cynlluniau ansawdd aer, fel Parth Allyriadau Isel Iawn (ULEZ) Llundain, sydd, fe amcangyfrifir, wedi arwain at ostyngiad 44% yn lefelau Deuocsid Nitrus ($NO^2$) peryglus yng nghanol Llundain[29], yn dangos y gall Parthau Aer Glân (CAZs) sydd wedi'u cynllunio'n dda ar lefel ranbarthol neu leol leihau lefelau llygryddion peryglus. Mae Ansawdd Aer yn fater datganoledig, ac mae'n dda o beth fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) yn ddiweddar, sy'n darparu fframwaith ar gyfer pennu targedau ansawdd aer cenedlaethol yn ogystal â diwygio deddfwriaeth bresennol i alluogi Gweinidogion Cymru i weithredu Parthau Aer Glân neu Barthau Allyriadau Isel lle mae eu hangen. Mae'n dal yn siomedig nad yw Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno ei Fil Aer Glân ei hun eto.

**Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig weithio'n agos i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi weithredu Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru). Ac oherwydd brys y sefyllfa, dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddeddfu ar gyfer Bil Aer Glân i Ogledd Iwerddon os bydd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn parhau i fod wedi'i ddiddymu.**

Er bod blaenoriaeth yn aml yn cael ei rhoi i fathau o lygredd aer sy'n haws eu deall, fel llygredd trafnidiaeth a gwresogi domestig, bydd lleihau llygredd nitrogen, fel amonia ac ocsid nitrus, yn chwarae rhan fawr i wella ansawdd aer ac iechyd y cyhoedd.

Yn ôl data gan y llywodraeth, roedd allyriadau o amaethyddiaeth yn cyfrif am 87% o gyfanswm allyriadau amonia yn 2021 a dyma oedd y prif gyfrannwr at y cynnydd mewn allyriadau rhwng 2013 a 2017. At hynny, canfu fod taenu gwrteithiau organig ac anorganig yn ffynhonnell sylweddol o allyriadau amonia o amaethyddiaeth a'i fod yn dangos tuedd ar i fyny (cynyddodd allyriadau o'r ffynhonnell hon o 109 mil tunnell yn 2011 i 117 mil tunnell yn 2021).[30]

Mae llygredd nitrogen yn niweidiol nid yn unig i fioamrywiaeth, ond hefyd i iechyd y cyhoedd. Mae gan amonia amaethyddol y potensial i gymysgu ag allyriadau diwydiant a thrafnidiaeth, a thrwy hynny gynyddu lefelau $PM_{2.5}$ ymhellach yn yr awyr[31].

29 London City Hall, *Inner London ULEZ Expansion 1 Year Report,* 2023

30 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *National Statistics Chapter 11: Environment,* 2022

31 Soil Association, *The impacts of nitrogen pollution*

Yn sgil adroddiadau allyriadau a luniwyd dan orchymyn cyfreithiol yn sgil y Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol, rhagwelir y bydd y Deyrnas Unedig yn methu cyflawni ei hymrwymiadau i leihau allyriadau Ocsid Nitrus yn 2030 ac amonia yn 2030 a 2040 heb weithredu pellach[32].

**Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno Strategaeth Leihau Nitrogen ar frys ar gyfer Lloegr. Ar ben hynny, rhaid i'r Llywodraeth weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig mewn modd integredig i sicrhau bod lefelau llygredd nitrogen yn cael eu gostwng yn sylweddol.**

## Datgarboneiddio ein heconomi a chyflawni Sero Net

Dylid symud tuag at economi ddi-garbon cyn gynted ag y bo modd os ydym am leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau tywydd trychinebus nawr ac yn y dyfodol. Mae Strategaeth Sero Net Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymrwymo i ddatgarboneiddio pob sector o economi'r wlad i gyrraedd ein targed sero net erbyn 2050[33]. Mae CIEH yn teimlo bod y strategaeth yn dangos diffyg uchelgais mewn rhai meysydd allweddol megis gwella mesurau effeithlonrwydd ynni. Croesawn y ffaith fod gan Ddeddf yr Amgylchedd, a gyflwynwyd y llynedd, dargedau annibynnol ar gyfer gwarchod yr amgylchedd, fel targedau ansawdd aer ac ansawdd dŵr. Ond unwaith eto teimlwn fod y targedau a amlinellir yn y Ddeddf hon yn brin o'r uchelgais angenrheidiol i gyrraedd sero net fel mater o frys.

**Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig brysuro'i huchelgeisiau i gyflwyno safonau perfformiad gofynnol i sicrhau bod pob cartref yn cwrdd â Band C y Tystysgrif Perfformiad Ynni erbyn 2030.**

Dylid cael deddfwriaeth newydd i sefydlu nod cyffredinol fod newid hinsawdd, cynaliadwyedd a lleihau carbon yn cael eu hystyried fel rhan o bob penderfyniad a pholisi gan lywodraeth ganolog a lleol.

Mae Gweithwyr Iechyd yr Amgylchedd yn y rheng flaen o ran arolygu tai o fewn y sector rhentu preifat, sicrhau bod safleoedd tir llwyd yn cael eu datblygu'n ddigonol, monitro ansawdd aer a dŵr, yn ogystal â sicrhau y cynhelir safonau bwyd digonol. Hynny yw, mae ein haelodau'n chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y Deyrnas Unedig ar y trywydd iawn i gyflawni ei hymrwymiadau sero net ac maent yn adnodd amhrisiadwy o wybodaeth wrth dynnu sylw at gamau gweithredu addas i gyrraedd y targed brys hwn yn well.

**Rhaid i lywodraeth y Deyrnas Unedig ymrwymo i ymgysylltu â gweithwyr iechyd yr amgylchedd wrth weithredu polisïau sero net cyfredol er mwyn gochel rhag canlyniadau anfwriadol fyddai'n deillio o addasu a lliniaru, a rhaid iddi ddeall yr effaith bosibl ar rolau Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd.**

32 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, UK Informative Inventory Report (1990 to 2021), 2023

33 Adran Ynni, Diogelwch a Sero Net a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Net Zero Strategy: Build Back Greener, 2022

## Sefydlu safonau uchel o ddiogelu'r amgylchedd

Mae ffracio'n broses sy'n defnyddio llawer iawn o ddŵr, gyda ffigurau o'r Unol Daleithiau'n amcangyfrif bod ffracio wedi defnyddio o leiaf 239 biliwn galwyn o ddŵr ers 2005[34]. Ar ben hynny, mae astudiaethau gwyddonol a adolygwyd gan gymheiriaid yn dangos bod gwastraff ffracio wedi bod yn gyfrifol am halogi dyfrffyrdd, a hyd yn oed dŵr yfed tai preswyl[35].

Mae ffracio hefyd yn rhyddhau llawer iawn o nwy methan, sef nwy tŷ gwydr sy'n dal 25 gwaith yn fwy o wres na charbon deuocsid ac sydd felly'n hynod niweidiol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd[36].

Mae'r arfer hwn yn niweidiol i ansawdd aer a dŵr, yn creu lefelau uchel o lygredd sŵn, yn allyrru llawer iawn o nwyon tŷ gwydr, ac ni chaiff fawr ddim effaith ar filiau ynni cartrefi.

**Tra bod CIEH yn croesawu'r penderfyniad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wyrdroi'r penderfyniad i godi'r moratoriwm ar ffracio, anogwn y Llywodraeth i wneud hyn yn gam parhaol trwy gyflwyno gwaharddiad ar ffracio. Mae CIEH yn annog y Llywodraeth yn hytrach i fuddsoddi mewn ffurfiau ynni adnewyddadwy i warantu diogelwch ynni, yn ogystal â chyflwyno llu o fesurau effeithlonrwydd ynni i leihau biliau cartrefi a mynd i'r afael â newid hinsawdd.**

Yn ôl dadansoddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae'r carthion amrwd sy'n cael eu rhyddhau i'n hafonydd yn cynyddu[37], a chafwyd cyfanswm o 3.6 miliwn o oriau yn 2023, mwy na dwbl ffigur 2022[38]. Mae amryw o resymau dros hyn, o systemau pibelli gwallus[39] i seilwaith carthffosiaeth sy'n heneiddio ac heb weld buddsoddiad digonol[40].

Gyda'r cynnydd o 60% mewn clefydau a gludir mewn dŵr ers 2010[41], mae pryder cynyddol nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud digon i atal cwmnïau dŵr rhag rhyddhau carthion amrwd heb eu trin yn anghyfreithlon i'n hafonydd a'n dyfrffyrdd er mwyn amddiffyn ein bywyd morol ac iechyd y cyhoedd.

Ar ben hynny, mae'r rheolau presennol yn caniatáu i gwmnïau dŵr ollwng carthion heb eu trin i ddyfrffyrdd pan gyrhaeddir terfynau gorlif stormydd.

**Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig weithredu'n llymach, gan godi dirwyon a chosbau troseddol yn erbyn cwmnïau dŵr sy'n rhyddhau carthion heb eu trin i'n dyfrffyrdd yn anghyfreithlon. Rhaid i'r llywodraeth hefyd wella seilwaith trin carthion a draenio'r Deyrnas Unedig fel blaenoriaeth genedlaethol i fynd i'r afael â llygredd dŵr.**

34 Environment America, *Fracking by the Numbers,* 2016
35 Meng, *The impacts of fracking on the environment: A total environmental study paradigm*, 2016
36 Asiantaeth Ynni Rhyngwladol, *Methane Tracker – Data Tools* - 2023
37 Asiantaeth yr Amgylchedd, *Water and sewerage companies in England: environmental performance report 2021*, 2022
38 Adran yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig, *Event Duration Monitoring - Storm Overflows - Annual Returns,* 2023
39 Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd, *Drain misconnections: How they affect our environment*
40 Financial Times, *England's water groups slashed investment in sewage network in recent decades,* 2021
41 The Guardian, *Hospital admissions for waterborne diseases in England up 60%, report shows,* 2024

# Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Mae cyfartaledd o 677,000 o weithwyr bob blwyddyn yn dioddef salwch sydd wedi'i achosi neu ei waethygu, yn eu cred nhw, gan eu gwaith[42]. Mae cost ddynol hyn yn enfawr, wrth i bobl dreulio rhan helaeth o'u hwythnos yn gweithio[43] ac yn wyneb anghydraddoldebau iechyd cynyddol y wlad[44]. Mae baich economaidd hyn o ran colli cynhyrchiant a chostau gofal iechyd yn sylweddol hefyd, gydag amcangyfrif cost blynyddol cyfartalog o £20.7 biliwn i economi'r Deyrnas Unedig[45].

Mae iechyd a diogelwch da yn llesol i bawb o safbwynt lleihau risg a chostau, gwella cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethau a chynyddu cynhyrchiant gan weithwyr hapusach, iachach a mwy brwdfrydig[46]. Mae'n bwysig felly bod y Llywodraeth yn gweithio ochr yn ochr â CIEH i fframio Iechyd a Diogelwch fel cyfraniad hanfodol sy'n ychwanegu gwerth i sefydliadau.

Er mwyn cyflawni hyn, mae CIEH yn gofyn i'r Llywodraeth gefnogi ein haelodau a gweithio gyda nhw yn eu cenhadaeth i hyrwyddo a sicrhau iechyd a diogelwch mewn busnesau bach a chanolig, micro-sefydliadau a sectorau sydd heb eu rheoleiddio'n ddigonol gan gynnwys yr economi gìg, sefydliadau gweithio o bell, y sector gwirfoddol a'r diwydiant hamdden. Mae busnesau bach a chanolig yn cyfrif am 61% o gyflogaeth, tua 16.7 miliwn o bobl sydd yn ôl yr amcangyfrif yn darparu trosiant blynyddol o £2.4 triliwn[47]. Yn sgil effaith pandemig COVID-19 bu cynnydd mawr mewn gweithio o bell gyda llawer o weithwyr bellach yn gweithio'r rhan fwyaf o'u horiau o'u cartrefi[48]. At hynny, amcangyfrifwyd yn ddiweddar fod ychydig dan hanner miliwn o bobl yn gweithio yn yr economi gìg[49]. Mae'n amlwg bod y ffordd y mae pobl yn cael mynediad i waith yn newid yn barhaus a rhaid deall, hybu a chroesawu iechyd a diogelwch y tu allan i fannau gweithio traddodiadol hefyd.

Mae ein haelodau yn y sefyllfa unigryw o allu gweld a hyrwyddo manteision rheoleiddio a gorfodi iechyd a diogelwch o safbwynt iechyd y cyhoedd, oherwydd eu sgiliau cyfannol. Maent mewn sefyllfa amlwg, yn lleol ac ym myd iechyd yr amgylchedd yn aml, i fynd i'r afael â'r newidiadau datblygol yng ngweithlu'r Deyrnas Unedig tra'n hybu busnesau i arloesi a diogelu iechyd yr amgylchedd a'r cyhoedd ar yr un pryd.

**Mae CIEH yn gofyn i'r llywodraeth gydnabod cyfraniad Iechyd a Diogelwch ac Iechyd yr Amgylchedd i iechyd cyhoeddus y Deyrnas Unedig trwy ymgysylltu â'n haelodau i hyrwyddo pwysigrwydd rheolau Iechyd a Diogelwch mewn busnesau bach a chanolig, micro-sefydliadau a sectorau sydd heb eu rheoleiddio'n ddigonol.**

[42] Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Statistics – Costs to Britain of workplace injuries and new cases of work-related ill health, 2022

[43] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Time Use in the UK: 23 September to 1 October 2023, 2023

[44] The Health Foundation, Addressing the leading risk factors for ill health, 2022

[45] Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Statistics – Costs to Britain of workplace injuries and new cases of work-related ill health, 2022

[46] Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Benefits and Costs – Benefits of good health and safety, 2024

[47] Yr Adran Busnes a Masnach, National Statistics – Business population estimates for the UK and regions 2023: statistic release, 2023

[48] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Public opinions and social trends, Great Britain: 24 April to 6 May 2024, 2024

[49] CIPD, The True Story of the UK Gig Economy, 2023

## Rheoleiddio triniaethau cosmetig yn well

Mae llawer o driniaethau cosmetig yn tyllu'r croen, sy'n cario risg o firysau gwaed a heintiau difrifol eraill i'r cleient, ac eto roedd y ddeddfwriaeth fu'n rheoleiddio'r triniaethau hyn yn hen ac wedi arwain at glytwaith o wahanol ymagweddau. Mae CIEH yn falch o fod wedi chwarae rhan sylweddol ym mhroses y Llywodraeth o gyflwyno gwelliant i'r Ddeddf Iechyd a Gofal i alluogi cyflwyno cynllun trwyddedu ledled Lloegr ar gyfer gweithdrefnau cosmetig sydd ddim yn llawfeddygol. Yng Nghymru mae cynllun trwyddedu gorfodol yn cael ei gyflwyno sy'n gofyn am hyfforddi a thrwyddedu ymarferwyr sy'n gwneud gwaith tatŵio, tyllu'r corff, aciwbigo ac electrolysis. Does dim cynllun trwyddedu gorfodol o'r fath yn bodoli yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

**Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig weithio'n agos gyda CIEH ac arbenigwyr eraill yn y diwydiant i gynllunio a chyflwyno'r cynllun trwyddedu ledled Lloegr ar gyfer gweithdrefnau cosmetig sydd ddim yn llawfeddygol, y bydd angen ei ategu gan safonau a gofynion hyfforddi trylwyr ar gyfer pob ymarferydd sy'n cyflawni'r gwaith hwn.**

Dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ariannu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd gan ganolbwyntio ar risgiau triniaethau, sut i ddewis ymarferydd diogel a sut i roi gwybod am bryderon a chymhlethdodau.

## Diwygiadau Rheoleiddio Doethach

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei phapur polisi 'Smarter Regulation to Grow the Economy'.[50] Mae'r Llywodraeth yn honni y bydd eu dull newydd o reoleiddio yn cyflwyno rheolau sy'n gymesur â'r canlyniadau y maen nhw'n ceisio'u sicrhau, gan honni bod rhai o'r safonau rheoleiddio presennol a etifeddwyd oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar ddehongliad rhy gyfyngol ac anghymesur yn aml o'r egwyddor ragofalus. Bydd y diwygiadau'n rhoi terfyn ar y disgwyliad diofyn gan adrannau'r llywodraeth mai dewis cyntaf yw rheoleiddio, gan ofyn i adrannau'r llywodraeth lunio datrysiadau polisi amgen cyn hyd yn oed ystyried rheoleiddio. Os ystyrir rheoleiddio, rhaid i hynny fod yn gydnaws â buddiannau'r Deyrnas Unedig a bydd yn destun asesiadau ynghylch ei effaith ar fusnes, masnach, cystadleuaeth ac arloesedd.

Nod y llywodraeth yw lleihau'r baich rheoleiddio ar fusnes yn sylweddol trwy bwyso a mesur rheoleiddio yn erbyn ffactorau economaidd ar ffurf dadansoddiad cost a budd.

Bydd adrannau'r llywodraeth yn destun craffu ychwanegol gan mai nhw gaiff y dasg o gyfiawnhau'n glir pam y dewisir rheoleiddio yn ogystal â rhannu meini prawf cynnar ar gyfer monitro a gwerthuso pa mor llwyddiannus fu rheoleiddio yn ymarferol.

Mae CIEH yn poeni am ganlyniadau'r cynigion hyn gan ofni y bydd y canlyniad yn arwain at ostwng safonau hanfodol sy'n gwarchod iechyd y cyhoedd, boed hynny mewn diogelwch bwyd a hylendid, gwarchod yr amgylchedd neu iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae CIEH yn pryderu hefyd y gallai adrannau'r llywodraeth ddadlwytho'u cyfrifoldebau rheoleiddio

50 Yr Adran Busnes a Masnach, *Smarter Regulation to Grow the Economy*, Mai 2023

Chartered Institute of Environmental Health

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

i awdurdodau lleol, sydd lawer ohonynt eisoes heb adnoddau digonol. Er bod y llywodraeth wedi dweud na fydd yn lleihau nac yn dileu rheoliadau sy'n hanfodol i ddiogelu iechyd y cyhoedd, nid yw'n glir sut y bydd y llywodraeth yn diffinio "hanfodol". Mae'n bosibl y gallai rhai rheoliadau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar hyn o bryd gael eu gwanhau neu eu dileu yn y dyfodol.

**Mae CIEH yn gofyn am eglurhad gan y llywodraeth ar frys ynghylch pa asesiadau effaith a wnaed ar ganlyniadau posibl y 'Rheoleiddio Doethach' ar safonau rheoleiddio hanfodol sy'n diogelu iechyd y cyhoedd, yn enwedig mewn diogelwch bwyd, gwarchod yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch galwedigaethol.**

## Cysylltu â ni

Byddem yn falch iawn o glywed gennych a gweithio gyda chi wrth symud ymlaen, felly cofiwch bod croeso ichi gysylltu â'n **Rheolwr Polisi ac Ymgyrchoedd, Ciaran Donaghy:** c.donaghy@cieh.org

POL674.0624

CIEH
Chadwick Court, 15 Hatfields,
London SE1 8DJ

+44 (0)20 7827 5800
info@cieh.org